

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan,**

J Woodward, Brynmawr.

30 Mawrth 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan GIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd Profiad y Claf	5
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	8
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	15
5.	Y Camau Nesaf.....	17
6.	Methodoleg	18

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas, neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o J Woodward, 89 Bailey Street, Brynmawr, Gwent, NP23 4AN ddydd Mercher 30 Mawrth 2016.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd J Woodward yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol gyda rhybudd ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth - Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae J Woodward yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Brynmawr Gwent. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae J Woodward yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat a GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys: 1 deintydd; 2 nyrs ddeintyddol ran-amser ac 1 derbynydd rhan-amser.

3. Crynodeb

Canfuwyd gennym fod J Woodward yn darparu gofal deintyddol diogel, effeithiol ac o ansawdd uchel i gleifion a bod gan gleifion farn uchel ohono.

Dyma a ganfuwyd gennym fod y practis yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cleifion i ni siarad â nhw yn hapus gyda'r gwasanaeth a ddarperir
- Roedd y staff i ni siarad â nhw yn hapus yn eu swyddi ac yn deall eu cyfrifoldebau
- Roedd offer digonol yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent yn amlwg yn lân ac yn daclus
- Roedd systemau cadarn ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel
- Roedd systemau cadarn ar waith ar gyfer glanhau a sterileiddio offer ac offerynnau deintyddol yn briodol
- Cynhelir archwiliadau a chyfarfodydd tîm yn rheolaidd ac fe'u defnyddir i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau

Dyma'r hyn yr ydym yn argymhell y gallai'r practis ei wella:

- Sicrhau bod cofnodion pob claf yn cynnwys cyfeiriad at sgrinio canser a chynllunio triniaeth
- Cofnodi bod cleifion wedi diweddarau eu hanesion meddygol cyn pob triniaeth
- Arddangos manylion llawn y weithdrefn gwynion ar gyfer cleifion GIG a phreifat
- Sicrhau bod y rhestr wirio ar gyfer dyddiadau terfyn offer brys ac ystafell driniaeth yn cael ei hadolygu'n wythnosol a'i llofnodi a'i dyddio.

4. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Canfuwyd gennym fod tîm y practis wedi ymrwymo i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd o holiaduron cleifion AGIC yn hynod gadarnhaol.

Roedd gan y practis system ar waith ar gyfer gofyn am adborth cleifion yn rheolaidd trwy arolygon cleifion, fel ffordd o asesu ansawdd y gwasanaeth.

Roedd ystafell aros braf, olau ac awyrog lle'r oedd amrywiaeth o daflenni a phosteri hybu iechyd deintyddol.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC ymhlith y cleifion i ganfod eu safbwyntiau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd dau ar bymtheg o holiaduron gan gleifion ac roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

"Cyfeillgar, brwdfrydig a phroffesiynol bob amser"

"Mae'r deintydd yn dda iawn ac yn amyneddgar gyda fy mag gan fod ganddo anawsterau dysgu, a chaiff popeth ei esbonio iddo gam wrth gam gan ei wneud i deimlo'n gyfforddus."

"Proffesiynol, cwrtais a chyfeillgar bob amser ac yn fy ngwneud yn gyfforddus bob amser."

Gofal ag urddas

Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn hynod fodlon gyda'r gofal a'r driniaeth y maent yn eu derbyn yn y practis a'u bod yn cael croeso da iawn gan y staff. Gwelsom hefyd yr awyrgylch wresog a chyfeillgar a'r ymagwedd broffesiynol a fabwysiadir gan y staff tuag at gleifion. Roedd gan y practis drefniadau i sicrhau preifatrwydd cleifion, gan gynnwys man i gleifion gael sgysiau preifat gydag aelodau'r tîm deintyddol os oes angen. Canfuwyd hefyd fod y staff yn defnyddio disgrisiwn wrth ymdrin â negeseuon ffôn cleifion.

Gofal amserol

Roedd y practis yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn ffordd amserol. O'r ddau ar bymtheg o holiaduron a gwblhawyd, dim ond tri chlaf oedd wedi dioddef oediadau byr cyn cael eu gweld

gan y deintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiadau. Fe'n hysbyswyd gan gleifion hefyd eu bod yn cael eu hysbysu am y rheswm am yr oedi ac yn cael cynnig gwahanol amser apwyntiad os oeddent yn dymuno. Dywedodd mwy na thri o bob pedwar claf eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at ofal brys/y tu allan i oriau. Hefyd, gwelsom arwydd yn y ffenestr a gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis yn y dderbynfa, yn rhoi'r rhif cyswllt brys. Roedd y rhif brys hefyd wedi ei gynnwys yn neges ffôn y practis.

Cadw'n iach

Gwelsom fod amrywiaeth o daflenni hybu iechyd deintyddol ar gael i gleifion fynd gyda nhw ac roedd posteri lliwgar wedi'u harddangos yn nerbynfa'r practis. Roedd tystysgrifau cymwysterau a hyfforddiant y staff i'w gweld yn y dderbynfa hefyd.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi derbyn gwybodaeth briodol am eu triniaeth. Dywedodd bron i bob claf, (pan ofynnwyd iddynt am yr opsiwn o gyfathrebu trwy gyfrwng yr iaith o'u dewis), na allent gofio, gan eu bod wedi bod yn mynychu'r practis ers amser maith. Fe'n hysbyswyd gan dîm y practis mai prin iawn yw'r bobl sy'n siarad Cymraeg yn yr ardal.

Gofal unigol

Roedd gan y practis arwydd i ddefnyddwyr cadair olwyn i ganu cloch am gymorth ac roedd ramp ar gael i gynorthwyo cleifion i fynd i mewn i'r adeilad yn ddiogel. Roedd yr ystafell driniaeth wedi'i lleoli ar lawr daear y practis ac roedd drysau a choridorau yn caniatáu i gleifion ag anawsterau symud gyrraedd pob rhan o'r adeilad. Nid oedd unrhyw leoedd parcio ar y safle ond roedd maes parcio am ddim o fewn pellter byr i'r practis deintyddol.

Fe'n hysbyswyd gan y staff bod cleifion yn cael eu hannog i gynnig adborth llafar o ran eu safbwyntiau ar y gwasanaeth, pan fyddant yn mynychu'r practis. Fe'n hysbyswyd hefyd nad oedd unrhyw gwynion am y practis yn gyffredinol. Gwelsom fod arolygon cleifion yn cael eu cynnal bob tri mis a gwelsom fod y data wedi cael eu hadolygu yn y cyfarfod staff dilynol. Roedd hyn yn dangos bod systemau ar waith i alluogi cleifion i gynnig adborth i'r practis ar sail barhaus, ac roedd camau'n cael eu cymryd i wella gwasanaethau lle bynnag y bydd hynny'n bosibl.

Pan ofynnwyd am wneud cwynion am eu gofal neu driniaeth, dywedodd bron i hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn a'u bod wedi gweld yr hysbysiad 'Gweithio i Wella' (am y gweithdrefnau pryderon/cwynion ar gyfer gwasanaethau'r GIG yng Nghymru) ar wal yr ystafell aros. Roedd taflen 'Dental Complaints Service' hefyd wedi'i harddangos y

gallai'r cleifion ei chymryd os oeddent yn dymuno gwneud cwyn. Fodd bynnag, nid oedd cyfeiriadau sefydliadau y gellir cysylltu â nhw os bydd pryder, na'r amserlenni ar gyfer ymateb i gŵyn, wedi'u harddangos yng nghyswllt cleifion y GIG na phreifat.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai gweithdrefnau cwynion y practis ar gyfer cleifion GIG a phreifat gael eu diwygio i gynnwys amserlenni ar gyfer ymateb i gwynion a manylion sefydliadau perthnasol eraill y gallai cleifion gysylltu â nhw.

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Canfuwyd gennym fod cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Roeddem yn fodlon bod trefniadau ar waith i ddiogelu cleifion a staff rhag heintiau cysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal.

Roeddem yn gallu cadarnhau bod offer pelydr-X yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn ddiogel. Canfuwyd gennym hefyd bod gan y practis proses ddadheintio a oedd wedi'i hen sefydlu (ar gyfer offerynnau deintyddol a ddefnyddiwyd).

Fodd bynnag, nodwyd gennym yr angen am rywfaint o welliant i'r amgylchedd, y trefniadau sydd ar waith ar gyfer gwirio offer brys a chadw cofnodion.

Gofal diogel

Cyfleusterau clinigol

Canfuwyd gennym fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o fodloni safonau perthnasol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Roedd y practis yn cynnig amgylchedd ffres, glân a braf.

Edrychwyd ar y cyfleusterau clinigol yn yr ystafell driniaeth a chanfuwyd bod yr offer perthnasol ynnddi i sicrhau diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Nodwyd gennym fod yr ystafell driniaeth yn amlwg yn lân, yn daclus ac wedi'i chynnal a'i chadw'n dda. Roedd gan y practis restr wirio archwiliadau glanhau ar waith i sicrhau bod pob rhan o'r adeilad yn cael ei glanhau'n drylwyr. Roedd angen trwsio rhywfaint ar y llawr yn yr ystafell driniaeth gan fod yr ymyl silicôn yn rhydd ac roedd crac yn un rhan o'r llawr. Fe'n hysbyswyd gan y deintydd bod cynlluniau ar waith i'r llawr gael ei newid.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid hysbysu AGIC am yr amserlen i newid llawr yr ystafell driniaeth. Bydd hyn yn helpu i atal llwch a budreddi rhag casglu yn y man hwn.

Roedd yr ystafell driniaeth wedi ei threfnu'n dda i helpu nyrsys i weithio'n effeithlon. Roedd system effeithiol ar waith ar gyfer symud offer a ddefnyddiwyd o'r ystafell driniaeth i'r ystafell ddadheintio mewn cynwysyddion wedi'u selio. Fodd bynnag, nid oedd offerynnau a ddefnyddiwyd yn cael eu storio mewn

toddiant tan iddynt gael eu symud i'r ystafell ddadheintio ar ddiwedd sesiwn y bore neu'r prynhawn, fel yr argymhellir gan ganllawiau cyfredol. Cynghorwyd y practis felly i drochi offerynnau a ddefnyddiwyd mewn toddiant glanhau cyn eu trosglwyddo i'r ystafell ddadheintio. Byddai hyn yn cynorthwyo staff wedyn i lanhau offerynnau deintyddol yn fwy effeithiol. Roedd offer diogelwch personol priodol (fel menig neu ffedogau) yn cael eu defnyddio, ond gofynnwyd i'r deintydd ystyried gwisgo miswrn neu darian wyneb dros ei sbectol fel yr argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05-Diwygiad 1¹, yn hytrach na dibynnau ar ei sbectol er diogelwch.

Ar ôl i'r offer gael ei sterileiddio, roedd yn cael ei sychu, ei bacio, ei labelu'n eglur a'i ddyddio cyn cael ei ddychwelyd i'r ystafelloedd triniaeth i gael ei storio. Roedd pob bag wedi'i labelu gyda dyddiad prosesu'r offeryn. Cynghorwyd y practis hefyd i ddefnyddio clwt nad yw'n un lint ar gyfer sychu offerynnau, yn unol â chanllawiau WHTM 01-05.

Archwiliwyd y peiriannau sy'n darparu aer cywasgedig i'r ystafell driniaeth (cywasgydd). Gwelwyd tystysgrifau archwilio diogelwch. Nodwyd gennym fod profion dyfeisiau cludadwy (PAT) wedi cael eu cwblhau ar yr holl offer trydanol ym mis Chwefror 2015, er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau bach yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd offer tân ar gael ac wedi cael ei archwilio ym mis Chwefror 2016. Mae'r staff yn cynnal ymarferion diogelwch tân bob tri mis a chaiff archwiliadau larwm tân eu cofnodi'n wythnosol. Roedd arwyddion eglur i'r allanfeydd tân. Roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus wedi'i harddangos yn y dderbynfa a derbyniwyd tystysgrif diogelwch nwy ym mis Mai 2015. Roedd poster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos yn dangos holl enwau perthnasol swyddfa'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Fodd bynnag, nid y fersiwn ddiweddaraf oedd y poster hwn. Cynghorwyd y practis i roi sylw i'r mater hwn felly.

Roedd ffeil ar gael yn cynnwys taflenni data yn ymwneud â Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH). Roedd y practis hefyd wedi cwblhau rhai asesiadau risg penodol, (cyfarwyddo staff am y mesurau rheoli cyfredol sydd ar waith i atal niwed, o ran cemegau a gedwir ar y safle). Gan mai dim ond pedwar aelod o staff a gyflogir yn y practis, nid oedd asesiadau risg ysgrifenedig penodol yn ofynnol. Serch hynny, fe'n hysbyswyd gan y deintydd bod y practis

¹ Datblygwyd WHTM-01-05 fel canllaw ar ofal sylfaenol, practisau deintyddol a gwasanaethau deintyddol cymunedol fel ffordd o sicrhau bod cleifion yn cael eu trin mewn amgylchedd diogel a glân â chyn lleied o berygl â phosibl o drosglwyddo heintiau o un unigolyn i'r llall.
<http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/254/WHTM%2001-05%20Revision%201.pdf>

yn bwriadu cwblhau asesiadau risg perthnasol. Roedd yr holl gemegau'n cael eu cadw'n ddiogel y tu ôl i ddrysau wedi eu cloi.

Offer radiograffig

Canfuwyd gennym fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel a gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio cyfredol ar gyfer y deintydd a hyfforddiant radiograffeg ar gyfer y nyrsys deintyddol, yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 (RhYI(DM)).

Roedd y trefniadau cyfredol ar gyfer diogelu cleifion a staff pan fo'r peiriant pelydr-X ac OPG² yn cael ei ddefnyddio yn dderbyniol. Gwelwyd y llythyr hysbysu i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ynglŷn â'r defnydd o offer pelydr-X yn y safle. Canfuwyd tystiolaeth gennym o archwiliadau diogelwch a chynnal a chadw a phrofi offer. Gwelwyd rheolau lleol ar y defnydd o offer pelydr-X yn y ffeil diogelwch ymbelydredd hefyd, ac ar y wal yn yr ystafell driniaeth ac yn yr ystafell lle mae'r peiriant OPG wedi'i leoli. Roedd y rhain yn cynnwys enwau'r goruchwylydd diogelwch ymbelydredd a'r cynghorydd diogelwch ymbelydredd. Roedd diagram yn nodi'r man pelydr-X a reolir yn y ffeil hefyd, at y diben o ddiogelu cleifion a staff.

Storio cyffuriau ac offer ar gyfer achos brys

Roedd gan y practis weithdrefnau priodol ar waith i ymateb i achosion meddygol brys cleifion. Gwelsom gofnodion a oedd yn dynodi bod y tîm wedi derbyn hyfforddiant ar sut i gyflawni dadebriad cardio-pwlmonaidd (CPR) ac roedd tri o'r tîm yn weithwyr cymorth cyntaf neilltuedig â hyfforddiant cymorth cyntaf cyfredol. Nid oedd unrhyw arwydd yn dynodi lleoliad y bocs cymorth cyntaf nac i nodi'r gweithwyr cymorth cyntaf neilltuedig. Cynghorwyd y practis hefyd bod angen arwydd i nodi ble mae'r silindr ocsigen yn cael ei storio.

Roedd polisi dadebru a oedd yn benodol i'r practis ac roedd yn rhestru swyddogaethau staff mewn achos brys. Roedd yr offer dadebru a'r cyffuriau brys ar gael i'r staff mewn bagiau gafael, pe bai achos meddygol brys (ymgwmpiad) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth fod system ar waith i gofnodi'r dyddiadau terfyn ar gyfer offer brys a chyffuriau. Fodd bynnag, canfuwyd chwistrellau gennym a oedd heibio eu dyddiad, sy'n awgrymu bod angen

² Mae peiriant OPG yn cymryd delwedd pelydr-X panoramig o'r ên uchaf ac isaf, gan gynnig delwedd dau ddimensiwn o glust i glust.

gwella'r system sydd ar waith. Cafwyd gwared ar y rhain yn ddiogel a phrynwyd stoc newydd yn ystod yr arolygiad. Canfuwyd hefyd bod rhai deunyddiau deintyddol heibio eu dyddiad ac argymhellwyd y dylai'r practis ychwanegu chwistrellau, nodwyddau a deunyddiau deintyddol at y rhestr wirio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid rhoi system fwy effeithiol ar gyfer gwirio dyddiadau terfyn yr holl offer brys, cyffuriau a deunyddiau deintyddol ar waith a'i llofnodi a'i dyddio'n wythnosol.

Roedd y padiau presgripsiwn yn cael eu cloi i ffwrdd mewn cwpwrdd yn y nos ond nid oedd y cyffuriau brys yn cael eu cadw mewn ystafell wedi'i chloi dros nos.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid storio cyffuriau brys yn ddiogel dros nos.

Dadheintio

Roedd gan y practis fan neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol. Roedd y practis yn defnyddio golchwr/dadheintydd ar gyfer glanhau offer ac roedd ganddi ffwrn aerglos ar gael. Roedd y man yn amlwg yn lân ac yn rhydd o annibendod. Roeddem yn fodlon bod gweithdrefnau priodol ac wedi'u hen sefydlu ar waith i sicrhau bod cyn lleied o berygl o groes-heintio â phosibl i ddiogelu cleifion a staff. Gwelsom nad oedd unrhyw sinc golchi dwylo benodol ond roedd un ar gael yn yr ystafell drws nesaf. Cynghorwyd y practis i ystyried gosod sinc golchi dwylo benodol yn yr ystafell ddadheintio. Gwelwyd hefyd fod sebon pwmp llaw un defnydd a didolwyr eli dwylo yn cael eu defnyddio. Cynghorwyd y practis i ystyried didolwyr sebon hylif dim dwylo wedi'u gosod ar y wal, a fyddai'n sicrhau bod y risg o groes-heintio'n llai fyth.

Roedd y nyrs ddeintyddol i ni ei gweld yn cyflawni'r weithdrefn dadheintio yn gymwys iawn o ran sicrhau bod y prosesau cywir yn cael eu dilyn. Roedd yr holl nyrsys deintyddol wedi cwblhau cwrs hyfforddi diweddariad rheoli heintiau ddydd Mercher 23 Mawrth 2016 ac yn disgwyl am eu tystysgrifau.

Roedd y practis wedi cwblhau offeryn archwilio rheoli heintiau Deoniaeth Cymru, sy'n cydymffurfio â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM 01-05), ym mis Ionawr 2016. Roedd cynllun gweithredu ynghlwm i ddangos pa gamau oedd wedi cael eu nodi a phryd y byddent yn cael eu rhoi ar waith. Cynghorwyd y practis y dylid cwblhau archwiliad rheoli heintiau yn flynyddol.

Gwelsom fod yr holl offer yn cael ei archwilio'n rheolaidd. Roedd y practis yn cofnodi archwiliadau beunyddiol ac wythnosol ar y sterileiddiwr a'r golchwr/dadheintydd er mwyn sicrhau bod offer yn dal i weithio'n iawn a bod y broses ddadheintio yn effeithiol.

Cael gwared ar wastraff

Roeddem yn gallu gweld bod gan y practis systemau effeithiol ar waith i reoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar gael ar gyfer cael gwared ar wastraff sy'n beryglus ac nad yw'n beryglus. Gwelsom hefyd fod y gwastraff wedi cael ei wahanu rhwng y bagiau/cynwysyddion lliw neilltuedig yn unol â'r dull gwaredu cywir. Roedd y rhain wedi'u storio dan glo, mewn rhan ar wahân o'r adeilad, oddi wrth y manau cyhoeddus, cyn iddynt gael eu casglu. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gynhwysydd hylendid benywaidd neilltuedig yn y practis.

Yr hyn sydd angen ei wella:

Dylai fod gan y practis drefn briodol ar gyfer cael gwared ar wastraff gwastraff benywaidd, yn unol â chanllawiau Rheoli gwastraff annymunol/hylendid yn ddiogel yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Diogelu

Canfuwyd gennym fod gan y practis bolisi diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed. Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed.

Gofal effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'n barhaus y gwasanaeth a ddarperir. Roeddem yn gallu gweld bod rhai archwiliadau wedi cael eu cynnal gan y practis o ran atal a rheoli heintiau, rhoi gwrthfotigau ar bresgripsiwn a rhai triniaethau penodol. Roedd y practis yn ymwybodol o'r offeryn sicrhau ansawdd/datblygu staff a adnabyddir fel Deintyddiaeth Matrics Aeddfedrwydd, ond nid oedd wedi gwneud defnydd ohono eto i alluogi'r tîm deintyddol i ganolbwyntio ar sut y mae'n gweithio, nac i alluogi pawb yn y practis i feddwl am ansawdd y gofal. Cynghorwyd y practis felly i ystyried defnyddio dull datblygu staff.

Cofnodion cleifion

Er bod tystiolaeth fod cofnodion cleifion o ansawdd da yn gyffredinol, ac yn dangos bod gofal wedi cael ei gynllunio a'i ddarparu i sicrhau diogelwch a lles cleifion, canfuwyd gennym fod lle i wella.

Adolygwyd sampl o gofnodion cleifion ar gyfer y deintydd. Canfuwyd gennym nad oedd cofnodion gofal cleifion yn cynnwys gwybodaeth ddigonol am drafodaethau a gynhaliwyd am opsiynau triniaeth, er i'r holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC ddweud wrthym eu bod yn teimlo y rhoddwyd gwybodaeth ddigonol ar lafar. Gwelsom dystiolaeth hefyd nad oedd y deintydd wedi cydlofnodi'r hanesion meddygol ym mhob archwiliad a oedd yn dangos nad oeddent wedi cael eu gwirio. Gofynnwyd i'r practis ystyried cael diweddariad llafar o hanesion meddygol cyn pob triniaeth, er mwyn cofnodi unrhyw newidiadau a diweddarau eu hanesion meddygol os oes angen.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis gofnodi'r ffaith eu bod wedi gofyn i gleifion adolygu ac, os oes angen, diweddarau eu hanesion meddygol cyn pob triniaeth.

Nid oedd rhai cofnodion i ni eu gweld yn dangos unrhyw dystiolaeth o drafodaeth am sgrinio canser, defnydd o alcohol na rhoi'r gorau i ysmegu, er i'r staff ein hysbysu bod hyn yn digwydd a bod taflenni â rhagor o wybodaeth yn cael eu cynnig i'r cleifion. Nid oedd unrhyw gofnod chwaith o ganiatâd llafar yn cael ei sicrhau cyn pob triniaeth, nac o'r cyfiawnhad am gymryd delwedd pelydr-X.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i nodiadau clinigol gynnwys tystiolaeth o drafodaeth am:

- **Sgrinio canser**
- **Defnydd o alcohol**
- **Rhoi'r gorau i ysmegu**
- **Cael caniatâd llafar cyn pob triniaeth**
- **Cyfiawnhad am ddefnyddio pelydr-X**

Gwelsom fod ansawdd y delweddau pelydr-X a gymerir yn cael eu hystyried a'u cofnodi yn feunyddiol. Nid oedd archwiliadau pelydr-X chwe misol fel mater o drefn yn cael eu cynnal bob amser a chynghorwyd y practis i ystyried cwblhau archwiliad radiograffig trylwyr bob chwe mis fel yr argymhellir gan Gymdeithas Ddeintyddol Prydain. Canfuwyd gennym fod delweddau pelydr-X yn cael eu storio'n ddiogel mewn cypyrddau wedi'u cloi. Roedd adalwad (y cyfnod o amser rhwng galw claf yn ôl am driniaeth) yn cael ei gofnodi yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE).

Canfuwyd gennym fod gan y practis drefniadau priodol ar waith i greu copïau wrth gefn o gofnodion electronig cleifion er mwyn sicrhau parhad gofal. Cedwir cofnodion papur mewn cwpwrdd wedi ei gloi.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Canfuwyd tystiolaeth gennym o reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol iawn yn y practis. Roedd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith. Roedd y tîm staff yn ymddangos yn hapus yn eu swyddi ac yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.

Roedd y practis wedi gweithredu o'r safle teras wedi'i drosi yn Bailey Street ers naw mlynedd. Roedd popeth wedi cael ei gynllunio i wneud y defnydd gorau o'r lle sydd ar gael. Cyfrifoldeb y deintydd oedd rheoli'r practis o ddydd i ddydd. Roedd gwaith papur yn drefnus ac yn hawdd dod o hyd iddo, a oedd yn cyfrannu at redeg y practis yn effeithiol.

Gwelsom dempledi ar gyfer rhaglen sefydlu, ond nid oedd y rhaglen wedi cael ei defnyddio gan fod y tîm staff wedi bod yn eu swyddi ers blynyddoedd lawer. Roedd y rhain yn drylwyr iawn. Rhoddwyd mynediad i'r holl staff at y polisiâu a'r gweithdrefnau a gwelsom dystiolaeth fod y rhain yn cael eu darllen a'u llofnodi gan y staff. Cynhelir gwerthusiadau/adolygiadau perfformiad blynyddol a gwelsom y ffeiliau â thystiolaeth o werthusiadau yn mynd yn ôl nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, prin iawn oedd y wybodaeth a gofnodwyd. Dylai'r practis wella'r broses o gofnodi gwerthusiadau a chanlyniadau.

Yr hyn sydd angen ei wella:

Gellid gwella'r broses gwerthuso staff trwy ddefnyddio ffurflenni strwythuredig a chynlluniau datblygiad personol, y dylid eu storio'n ddiogel at ddibenion cyfrinachedd.

Gwelsom gofnodion cyfarfodydd staff tri misol. Roedd y cofnodion yn dangos tystiolaeth o'r tîm yn dysgu mewn cyfarfodydd. Defnyddiwyd archwiliadau hefyd i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau, ond cynghorwyd y practis i gynnal rhagor o archwiliadau yn y dyfodol er mwyn cefnogi'r broses sicrhau ansawdd.

Cadarnhawyd gennym fod yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd arwydd y tu allan i'r practis ar y wal yn dangos enw a chymwysterau'r deintydd. Roedd yswiriant indemniad ar gael. Roedd y dystysgrif AGIC wreiddiol ar gyfer y deintydd hefyd wedi'i harddangos yn y dderbynfa. Roedd archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cwblhau ar gyfer y deintydd a'r staff nyrsio deintyddol. Fe'n hysbyswyd bod mwyafrif y staff wedi bod yn y practis ers nifer o flynyddoedd ac roedd gan yr holl staff gontract cyflogaeth.

Gwelsom gofnodion yn ymwneud ag imiwneiddiadau perthnasol ar gyfer yr holl staff clinigol sy'n gweithio yn y practis. Edrychwyd ar y polisiâu a'r gweithdrefnau sydd ar waith. Canfuwyd gennym eu bod yn drylwyr iawn a gwelsom dystiolaeth eu bod yn adlewyrchu arfer gwirioneddol.

5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn J Woodward yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.


Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei werthuso a'i gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso yn rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwyddd a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1: Y Safonau Iechyd a Gofal



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008³ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011⁴. Pan fo'n briodol, rydym yn ystyried sut y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

³ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made>

⁴ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2686/contents/made>

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisiau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg ar gymhwysiad safonau yn y practis yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: J. Woodward, Brynmawr

Dyddiad yr Arolygiad: 30 Mawrth 2016

Tudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad/ Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
7	Dylai gweithdrefnau cwynion y practis ar gyfer cleifion GIG a phreifat gael eu diwygio i gynnwys amserlenni ar gyfer ymateb i gwynion a manylion sefydliadau perthnasol eraill y gallai cleifion gysylltu â nhw.		Bydd copi llawn o'n polisi cwynion yn cael ei arddangos yn yr ystafell aros ynghyd ag amserlenni a sefydliadau perthnasol.	Jan Woodward	Ar unwaith.
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
8	Dylid hysbysu AGIC am yr amserlen	Y Safonau	Y llawr yn yr ystafell driniaeth i gael	Jan	O fewn y 4

Tudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad/ Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	i newid llawr yr ystafell driniaeth. Bydd hyn yn helpu i atal llwch a budreddi rhag casglu yn y man hwn.	Iechyd a Gofal 2.9 a WHTM01-05 6.46-6.50	ei newid.	Woodward	mis nesaf i gyd-daro â chau'r ddeintyddfa i osgoi amharu ar apwyntiadau cleifion.
11	Dylid rhoi system fwy effeithiol ar gyfer gwirio dyddiadau terfyn yr holl offer brys, cyffuriau a deunyddiau deintyddol ar waith a'i llofnodi a'i dyddio'n wythnosol.	Y Safonau Iechyd a Gofal 2.6	Bydd rhestr wirio wedi'i hargraffu ar gael yn y ddeintyddfa i gael ei gwirio a'i llofnodi'n wythnosol gan aelod o staff.	Jan Woodward	Ar unwaith.
11	Dylid storio cyffuriau brys yn ddiogel dros nos.	Y Safonau Iechyd a Gofal 2.6	Cyffuriau brys i gael eu storio mewn cwpwrdd wedi'i gloi dros nos.	Jan Woodward	O fewn pythefnos.
12	Dylai fod gan y practis drefn briodol ar gyfer cael gwared ar wastraff gwastraff benywaidd, yn unol â chanllawiau Rheoli gwastraff annymunol/hylendid yn ddiogel yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.	Rheoliadau Dyletswydd Gofal 1991 Rheoliadau Gwastraff Peryglus 2005	Trefni gyda Initial Medical i ddarparu gwasanaeth cael gwared ar gynhyrchion gwastraff benywaidd.	Jan Woodward	Cysylltwyd ag Initial Medical a byddant yn trefnu i 2 uned hylendid benywaidd i gael eu

Tudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad/ Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		(Cymru)			hanfon cyn gynted â phosibl.
13	Dylai'r practis gofnodi'r ffaith eu bod wedi gofyn i gleifion adolygu ac, os oes angen, diweddarau eu hanesion meddygol cyn pob triniaeth.	Canllaw'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.1.1	Bydd y practis yn sicrhau bod pob hanes meddygol yn cael eu gwirio yn ystod pob apwyntiad a bydd archwiliad rheolaidd o hyn yn cael ei gynnal.	Jan Woodward.	Ar unwaith.
13	<p>Mae'n rhaid i nodiadau clinigol gynnwys tystiolaeth o drafodaeth am:</p> <p>Sgrinio canser</p> <p>Defnydd o alcohol</p> <p>Rhoi'r gorau i ysmegu</p> <p>Cael caniatâd llafar cyn pob triniaeth</p> <p>Cyfiawnhad am ddefnyddio pelydr-X</p>	Safonau Iechyd a Gofal 1.1,3.1,3.2,4 .1,4.2, 5.1,6.1	Bydd y practis yn sicrhau y bydd cofnodion yn cynnwys tystiolaeth o drafodaeth am yr holl bwyntiau sy'n cael eu crybwyll ac yn cynnal archwiliad rheolaidd o hyn.	Jan Woodward	Ar unwaith.
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					

Tudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad/ Safon	Camau gan y Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
15	Gellid gwella'r broses gwerthuso staff trwy ddefnyddio ffurflenni strwythuredig a chynlluniau datblygiad personol, y dylid eu storio'n ddiogel at ddibenion cyfrinachedd.	Y Safonau Iechyd a Gofal 3.3	Bydd gwerthusiadau blynyddol yn cael eu cofnodi, eu trafod gyda holl aelodau'r staff ac yn cael eu llofnodi ganddynt. Bydd cynlluniau datblygu unigol yn cael eu cyflwyno ar gyfer pob aelod o staff.	Jan Woodward.	I gael ei gyflawni dros y 6 mis nesaf.

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras): Jan Woodward.....

Teitl: Llawfeddyg Deintyddol.....

Dyddiad: 4 Mai 2016.....